Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Dull o reoleiddio deallusrwydd artiffisial sydd o blaid arloesi.

Yn cau 21 Mehefin 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

## Cwestiynau

**1. A ydych chi'n cytuno y byddai gofyniad ar sefydliadau i'w gwneud yn glir eu bod yn defnyddio deallusrwydd artiffisial yn sicrhau gwell tryloywder?**

Ydym, gan y gallai ar hyn o bryd fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiarwybod i'r unigolyn a'u gwybodaeth yn cael ei brosesu mewn modd nad ydynt wedi ei ragweld ac na fyddent yn cytuno ag ef. Mae nodi yn glir fod Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio yn rhoi'r dewis i ddefnyddwyr, cleientiaid ac aelodau eraill o'r cyhoedd i beidio ag ymgysylltu gyda'r sefydliad neu os oes yna ddewis i ddiffodd y Deallusrwydd Artiffisial eu bod yn gallu gwneud hynny.

Rydym yn teimlo fod y clytwaith o ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn anodd i sefydliadau a chymunedau eu deall ac mae o bosibl yn ychwanegu at y teimladau o ddrwgdybiaeth, gofal ac ofn. Fe allai darparu eglurder a bod yn dryloyw roi'r cyfle i bobl i fod yn fwy ymwybodol a gwarchod eu hunain a'u hanwyliaid rhag unrhyw Ddeallusrwydd Artiffisial niweidiol neu fe allant chwilio'n benodol am Ddeallusrwydd Artiffisial maent yn ymddiried ynddo.

**2. A oes unrhyw fesurau eraill y gallem eu gosod ar sefydliadau i wella tryloywder o ran deallusrwydd artiffisial?**

Rydym yn awgrymu fod sefydliadau yn defnyddio iaith glir, gryno, sy'n rhydd o jargon i rannu pa dechnolegau maent yn eu defnyddio. Dylai hyn gael ei arddangos a dylai fod yn hawdd i'w weld ar Wefannau, Telerau ac Amodau, contractau cleient/cwsmer a dogfennau allweddol eraill neu lwyfannau lle gall pobl ddisgwyl dod o hyd i wybodaeth. Fe ddylai fod yna angen i gael datganiad Deallusrwydd Artiffisial os yw Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio gan unrhyw sefydliad yn union fel y mae angen polisi preifatrwydd neu bolisïau cwcis ar gyfer tryloywder a sicrwydd cydymffurfedd gyda deddfwriaeth diogelu data a chyfrinachedd.

Dylai fod yn orfodol i wybodaeth fod ar gael yn hawdd ynglŷn â'r mathau o waith a dadansoddiad y mae'r Deallusrwydd Artiffisial yn ymgymryd ag ef, fel bod yna ddealltwriaeth o beth, sut, pryd a lle y mae'r Deallusrwydd Artiffisial yn gweithredu. Os yw'r Deallusrwydd Artiffisial yn gweithredu o weinydd gwahanol neu gan gwmni neu sefydliad arall ar ran y sefydliad yr ymgysylltir ag ef, yna dylid gwneud hynny'n eglur a dylai'r safonau diogelwch a chydymffurfedd ar gyfer diogelwch fod ar gael yn hawdd drwy un o'r ddau sefydliad.

Er mwyn cynorthwyo gyda thryloywder, rydym yn credu y gallai fod yna eicon neu logo y dylid ei gysylltu ag unrhyw gynnwys Deallusrwydd Artiffisial, fel bod modd adnabod cynnwys Deallusrwydd Artiffisial yn glir. Ochr yn ochr â hyn gallai'r posibilrwydd fod hefyd o gynnwys marc ansawdd Deallusrwydd Artiffisial neu debyg sy'n dangos y glynir at y Fframwaith a'i fod wedi ei wirio gan y rheoleiddwyr, gan ddarparu sicrwydd ychwanegol yn ymwneud â diogelwch y Deallusrwydd Artiffisial a ddefnyddir.

Dylid cynnig hyfforddiant staff i'r holl staff fel eu bod yn ymwybodol o'r Deallusrwydd Artiffisial a ddefnyddir gan y sefydliad, sut maent yn ymgysylltu ag ef a'u cyfrifoldeb o ran sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn unol â'r gyfraith, rheoleiddwyr, egwyddorion ac unrhyw ganllawiau eraill.

Dylai gwybodaeth yn ymwneud â sut i roi gwybod am bryderon neu ddefnydd amhriodol o wybodaeth bersonol gael ei rhannu gyda defnyddwyr / cwsmeriaid o'r cychwyn yn y polisi preifatrwydd ac mewn polisi Deallusrwydd Artiffisial ar wahân, yn debyg i'r rhyngweithio rhwng polisïau preifatrwydd a pholisïau cwcis ar nifer o wefannau cyfredol.

**3. A ydych chi'n cytuno bod y llwybrau presennol i herio niweidiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial neu geisio iawn yn eu cylch yn ddigonol?**

Na, ddim ar hyn o bryd. Mae'r dirwedd Deallusrwydd Artiffisial mewn cyflwr o newid yn barhaus gyda newidiadau'n digwydd yn sydyn a thu hwnt i reolaeth a phrofiadau'r rhai hynny sy'n datblygu'r Deallusrwydd Artiffisial, gan fod y Deallusrwydd Artiffisial yn prosesu gwybodaeth a data yn gyflymach ac yn wahanol i'r hyn y gall y rhan fwyaf o fodau dynol ei wneud. Mae'r cynnydd cyflym hwn yn golygu fod yna risg cynyddol o niwed a'r posibilrwydd o gamddefnydd wrth i ddatblygwyr weithio i ddilyn hynt y datblygiadau a nodi unrhyw newidiadau posibl mewn cyfeiriad neu dorri deddfwriaeth drwy ganlyniadau na fwriadwyd neu ar ddamwain. Bydd unrhyw achosion o dorri deddfwriaeth yn golygu risg sefydliadol yn ogystal â'r posibilrwydd o wrthod ymddiried mewn Deallusrwydd Artiffisial neu o leiaf y fersiwn penodol hwnnw o Ddeallusrwydd Artiffisial.

Bydd cyrff, gangiau troseddol ac unigolion sy'n dymuno defnyddio technolegau ar gyfer arferion amhriodol / anghyfreithlon yn parhau i wneud hynny ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o gamfanteisio, gorfodi, bygwth, cam-drin a niweidio ar gyfer eu budd personol eu hunain. Fodd bynnag, drwy gadarnhau'r ddeddfwriaeth a gwneud cyfrifoldebau'n fwy eglur bydd o gymorth i nodi arfer drwg, rheolaeth wael a defnydd aneffeithiol o adnoddau yn haws a galluogi i unrhyw gamau priodol i gael eu cymryd drwy'r llysoedd sifil a/neu droseddol.

Mae'n ymddangos fod y Fframwaith yn cefnogi rheoleiddwyr i ddarparu Canllawiau i ddefnyddwyr a fydd yn helpu i ddogfennu'r ffordd i herio a cheisio unioni'r materion. Os codir y materion hyn ac os gweithredir yn briodol arnynt gyda gwersi a ddysgwyd a systemau a addaswyd, fe allai helpu i leihau'r defnydd amhriodol o Ddeallusrwydd Artiffisial a datblygu mwy o ymddiriedaeth gan y rhai hynny y gofynnir iddynt ei ddefnyddio.

Mae'r Fframwaith yn crybwyll y gallu i ryngweithredu yn fyd-eang a'r safonau moesegol byd-eang ond nid oedd yna unrhyw gyfiawnhad moesegol o fewn y fframwaith i sicrhau y gall rheoleiddwyr fod yn hyderus fod yna ganllawiau priodol a chefnogaeth ar gael i gwsmeriaid a defnyddwyr eraill Deallusrwydd Artiffisial.

Mae rhywfaint o bryder eisoes yn cael ei godi ynghylch y defnydd o AI a thechnolegau eraill i alluogi stelcian a mathau eraill o ymddygiad peryglus, nid yw'n ymddangos bod unrhyw beth yn y fframwaith yn ceisio mynd i'r afael â'r elfennau hyn . Mae sôn am ddatblygu pornograffi, ond nid y risg y bydd delweddau amhriodol o blant yn cael eu creu gan ddefnyddio ffotograffau a delweddau o blant go iawn ond y mae eu cyrff wedyn yn cael eu creu gan AI.

Hefyd mae'r risg o begynu cynyddol lle mai dim ond gwybodaeth o un safbwynt a gyflwynir, gan roi realiti anghywir i'r defnyddiwr, gan o bosibl arwain at niwed pellach gan gynnwys radicaleiddio ac eithafiaeth wrth i'r golwg camliwiedig o'r byd ddod yn realiti'r ymennydd, ac felly o bosibl yn dod yn broblem gylchol lle bwydir gwybodaeth oddi wrth ei gilydd heb unrhyw gyfle i dorri'r cylch.

Mae yna angen i ddiogelwch Deallusrwydd Artiffisial a diogelu plant ac oedolion mewn perygl neu ffurfiau eraill o niwed barhau yn flaenoriaeth allweddol a derbyn buddsoddiad ac ymrwymiad er mwyn rheoli'r dirwedd sy'n newid a cheisio cael gwared ar y niwed y gall defnydd amhriodol ei gael neu o leiaf cyfyngu ar y niwed.

**4. A allai'r llwybrau presennol i herio niweidiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial neu geisio iawn yn eu cylch gael eu gwella, os o gwbl.**

Iaith glir sy'n rhydd o jargon. Mae'r llwybrau o ran herio neu ddulliau o geisio unioni angen bod yn eglur ac yn hygyrch i bawb.

Dylai cyfeirio at wasanaethau cefnogi os yw defnyddwyr / cwsmeriaid wedi dioddef dwyn hunaniaeth neu dwyll fod yn bresennol ar wefannau, llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, Apiau ac ar fannau eraill gan gynnwys gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â chontract a chytundebau lefel gwasanaeth lle caiff Deallusrwydd Artiffisial ei ddefnyddio.

Dylai fod yna gyfle i'r rheoleiddwyr fod ag adnodd dysgu a rennir fel y gall unrhyw faterion ar gyfer herio ac unioni gael eu rhannu a'u rheoli ar draws y sectorau, rhannu arfer orau a rhoi'r grym i ddatblygwyr i ddatrys materion o ran Deallusrwydd Artiffisial sydd wedi datblygu mewn meysydd eraill ond nid yn eu maes hwy eto.

Os defnyddir Deallusrwydd Artiffisial i achosi niwed drwy aflonyddu, camdriniaeth, camfanteisio a gweithgarwch troseddol yna efallai fod yna angen i ddiweddaru deddfwriaeth bresennol i sicrhau yr ymdrinnir â hyn yn arbennig lle mae camdriniaeth ddomestig, diogelu a'r holl ffurfiau o weithgarwch anghyfreithlon ond yn arbennig twyll (gan gynnwys dwyn hunaniaeth) yna fe ddylai fod yna ffordd fel bod rhaid ei ddiffodd gyda'r holl ddata yn cael ei ddinistrio fel na ellir ei ddefnyddio eto. Nid yw'n eglur o'r fframwaith a fyddai hyn yn bosibl ac felly fe all fod yn wendid.

**5. A ydych chi'n cytuno y bydd yr egwyddorion traws-sector diwygiedig, unwaith y cânt eu rhoi ar waith yn effeithiol, yn ymdrin â'r risgiau sy'n codi o ganlyniad i dechnolegau deallusrwydd artiffisial?**

Mae'r egwyddorion traws sectoraidd yn annhebygol o ddileu'r holl beryglon a gaiff eu cyflwyno gan Ddeallusrwydd Artiffisial, ond gallai sicrhau fod yna gydgysylltedd alluogi tirwedd fwy eglur a gwell cyfleoedd rhannu rhwng y rheoleiddwyr. Hefyd mae'r cyfle ar gyfer gwell llywio a dealltwriaeth gan y rheoleiddwyr, sefydliadau ac unigolion sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial ac i ddefnyddwyr gwasanaeth a chwsmeriaid i ddeall ac o bosibl ymgysylltu mewn dull diogel a gallu adnabod risgiau a phroblemau fel y gallant gamu'n ôl yn briodol ac adrodd. Bydd risg o hyd y bydd y rhai hynny sydd eisiau defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ddibenion drwg yn gwneud hynny, i ddibenion fel twyll, llygredigaeth, camfanteisio a dwyn. Felly dylid gweld unrhyw beth i'w rhwystro fel rhywbeth cadarnhaol ac efallai y gall ymagwedd sy'n seiliedig ar egwyddor gyflawni hynny.

Mae rhai o'n haelodau mwy diamddiffyn neu hŷn o'r gymuned yn aml yn ei chael yn anodd i gael at wasanaethau ar-lein a'u deall neu o ganlyniad i amgylcheddau gwledig yn canfod cysylltedd yn her. Fe hoffem weld darpariaeth gwasanaeth arall sydd ar gael i gefnogi'r cwsmeriaid hyn fel nad ydynt o dan anfantais.

Mae cynnwys gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn anfwriadol yn destun pryder a gallai arwain at niwed ychwanegol. Tra mai ychydig o angen am drosolwg a awgrymir gan yr adran ar ymreolaeth (yn astudiaeth achos 3.1), fe fyddem ni'n argymell fod angen trosolwg yn bendant yn arbennig pan ei bod yn debygol fod yna unigolyn gofidus a phryderus yn ymwneud â hyn, a fyddai'n arwain o bosibl at gynyddu problemau iechyd meddwl neu greu problemau newydd.

Pan fo camgymeriadau'n digwydd mae angen dulliau diogelu mewn grym i sicrhau fod y rhain yn cael eu nodi a'u hunioni cyn gynted â phosibl gan alluogi i wybodaeth briodol gael ei rhannu gyda a rhwng rheoleiddwyr.

**6. Beth, os unrhyw beth, sydd ar goll yn yr egwyddorion diwygiedig?**

Tra bod gan Ddeallusrwydd Artiffisial nifer o fanteision posibl o ran hybu gwyddoniaeth, arbed amser a lleihau costau cyffredinol, mae yna fygythiad gwirioneddol fod y defnydd o dechnolegau'n effeithio ar ddiwydiant a chymunedau cyfan, gydag enghreifftiau o rai cwmnïau nawr yn dewis gosod gwasanaethau sgwrsfot yn hytrach na chyflogi staff mewn canolfan alwadau a allai gynyddu tlodi a digartrefedd.  Tra bod Swyddogion etholedig yn dewis defnyddio gwasanaethau rhad ac am ddim fel ChatGBT wrth ddrafftio areithiau mae'n golygu nad yw swyddi bellach ar gael, mae cyfleoedd yn cael eu colli ac yn fwy dirfodol mae yna risg fod y weithred o feddwl yn cael ei wneud gan beiriannau a gaiff eu rhaglennu gyda'r potensial ar gyfer camddefnydd a dylanwadau cynnil o ran iaith a allai gael effaith niweidiol ar unigolion, cymunedau a'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Mae'n ymddangos mai ychydig sydd yna o ran Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio i ddibenion cyfreithiol yn unig, gan gynnwys yn ymwneud â'r defnydd o ddata personol a gwybodaeth y gall datblygwyr ei ddefnyddio i dargedu grwpiau penodol, cymunedau neu unigolion.

**7. A ydych chi'n cytuno y byddai cyflwyno dyletswydd statudol ar reoleiddwyr i roi sylw priodol i'r egwyddorion yn egluro ac yn cryfhau mandadau rheoleiddwyr i roi ein hegwyddorion ar waith, a chadw ymagwedd hyblyg tuag at eu rhoi ar waith?**

Ydym mewn egwyddor ond rydym yn credu y dylai fynd y tu hwnt i osod dyletswydd statudol ar reoleiddwyr i roi sylw dyladwy ond dylai hynny fod yn berthnasol i'r rhai hynny sy'n defnyddio ac yn datblygu Deallusrwydd Artiffisial hefyd. Tra gall ychwanegu at y baich biwrocrataidd i gwmnïau, hebddo byddai sefydliadau'n annhebygol o gydymffurfio'n llawn neu o gwbl. Ein barn ni yw mai'r unig ffordd o sicrhau cydymffurfedd gyda'r fframwaith, gan bawb ac eithrio'r rhai hynny sy'n bwriadu cyflawni gweithgarwch troseddol a'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial, yw i'r egwyddorion gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth ac nid dim ond eu mabwysiadu drwy roi 'sylw dyladwy'.

**8. A oes ymyriad statudol amgen a fyddai'n fwy effeithiol?**

Oes, deddfwriaeth lawn a fyddai'n galluogi erlyn a mynnu nad dim ond meddwl a wneir am yr egwyddorion a'r fframwaith ond y glynir atynt. Heb hyn mae'n aneglur pa bwerau fydd gan y rheoleiddwyr, os unrhyw rai o gwbl, i ymdrin ag unrhyw achosion o dorri'r egwyddorion, p'un ai yn fwriadol neu'n ddamweiniol, a chanlyniadau posibl yr achosion o dorri'r egwyddorion ar unigolion, sefydliadau, cymunedau a grwpiau penodol a ddiogelir.

**9. A ydych chi'n cytuno y byddai'r swyddogaeth a amlinellwyd yn adran 3.3.1 yn fuddiol o ran ein fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artiffisial pe bai'n cael ei chyflawni'n ganolog?**

Rydym yn cytuno mewn egwyddor gyda chynnwys Blwch 3.1, yn benodol yr angen i sicrhau fod yna ymagwedd gyson tuag at Reoli Risg a bod y llwybrau uwchgyfeirio yn glir i reoleiddwyr.

Gallai'r adran ar Addysg ac Ymwybyddiaeth gael ei gwella gydag eglurhad mwy eglur ar sut y byddai ymagwedd gydlynol o roi negeseuon yn cael ei chydlynu a sut y byddai hynny'n cael ei gyflawni.

Hoffem weld mwy o ymrwymiad o fewn y fframwaith mewn perthynas â Sganio'r Gorwel, tra'i bod yn briodol i awgrymu "galw diwydiant ynghyd yn rhagweithiol, ymchwilwyr, academia a budd-ddeiliaid allweddol eraill"- nid yw'n nodi sut beth fyddai hyn, a fyddai hyn yn fforwm rheolaidd, cyfathrebu electronig, rhwydwaith neu ymgysylltiad ad hoc? Hefyd nid oes yna unrhyw fanylion ar sut y byddai'r partïon priodol i gynrychioli yn cael eu nodi.

Fe wnaethom nodi'r diffyg gwybodaeth yn yr adran hon yn ymwneud â'r perthnasoedd gwaith gwahanol o fewn y gweinyddiaethau datganoledig. Fe fyddem yn argymell cynnwys fod hyn yn faes lle mae polisïau ac arferion datganoledig ac wedi eu cadw yn rhyngwynebu. Mae angen cydgysylltu eglur gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau datganoledig eraill yng Nghymru (fel y GIG yng Nghymru, DEFRA ayb). O dan yr adran ar y gallu i ryngweithredu gyda fframweithiau rheoleiddio rhyngwladol, fe all fod yn ymarferol i gyfeirio at 'Weinyddiaethau Rhyngwladol a Datganoledig' er y gallai adran ar wahân fod yn fwy priodol.

**10. Beth, os unrhyw beth, sydd ar goll yn swyddogaethau canolog?**

Gwybodaeth ar gyllid a mathau eraill o adnoddau. Yn yr asesiad o effaith (tudalen 38) tra bod yna adran fawr ar gost, nid yw sut yr eir i'r afael â hyn yn dryloyw. Hefyd ni chrybwyllir yr effaith y bydd hyn yn ei gael o fewn y meysydd polisi sydd wedi eu

cadw o fewn Llywodraeth Cymru ac asiantaethau datganoledig a phartneriaid eraill yng Nghymru.

Nid oes yna eglurhad clir o bwy fydd yn ariannu'r swyddogaeth ganolog ac o lle y daw'r arian hwn.

Mae Deddf (Mesurau) yr Iaith Gymraeg 2010 yn nodi fod y Gymraeg i'w thrin yn gyfartal â'r Saesneg ac felly fe fyddem yn disgwyl i ddarpariaeth gael ei gwneud neu o leiaf gael ei chrybwyll o fewn y swyddogaethau canolog yn ymwneud â'r defnydd o iaith a'r opsiwn i ddewis ar gyfer y rhai sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Chymru.

**11. A wyddoch am unrhyw sefydliadau sydd eisoes yn bodoli a ddylai gyflawni un neu fwy o'n swyddogaethau canolog arfaethedig?**

O ystyried cwmpas eang posibl y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial wrth iddo ddatblygu mae yna bosibilrwydd y gallai fod angen i'r holl reoleiddwyr yn ogystal â'r rhai hynny fel safonau masnach a gwasanaethau rheoleiddio eraill a gaiff eu cynnal gan y cyngor ddod yn rhan o hyn. Fodd bynnag rydym yn credu y dylai hyn fod yn destun sgyrsiau a deialog ehangach i leihau unrhyw risg o ddyblygu, dryswch a galluogi arbedion maint posibl wrth gyflawni'r swyddogaethau canolog. Fe fyddem yn disgwyl ymgysylltu i ddigwydd o ran y swyddogaethau canolog gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a chyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â rheoleiddio gweithgarwch ac mae'n bosibl y bydd angen ei gynnal un sector ar y tro, mae gofal cymdeithasol ac iechyd er enghraifft yn debygol o fod ag anghenion a phroblemau gwahanol a gweithredu'r egwyddorion i wneuthurwyr a sefydliadau addysg.

**12. A oes gweithgareddau ychwanegol a fyddai'n helpu busnesau i arloesi a defnyddio technolegau deallusrwydd artiffisial yn hyderus?**

Bydd cwsmeriaid sy'n ansicr ynglŷn â chynnyrch neu'n ofni fod eu gwybodaeth mewn perygl yn cael effaith negyddol ar fusnes. Drwy annog tryloywder, hyfforddiant staff a gwybodaeth cwsmeriaid gyda dewisiadau cyflawni gwasanaeth eraill ar gyfer unigolion nad ydynt yn dymuno i Ddeallusrwydd Artiffisial ffurfio rhan o'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

Yn union fel y gall cwsmeriaid fod yn ofalus o'r dechnoleg a'r newidiadau felly y bydd busnesau. Mae busnesau yn gyffredinol yn cael eu rhedeg gan bobl sydd i gyd yn rheoli newid yn wahanol. Mae'n bwysig i gofio hynny a darparu gwybodaeth briodol a galluogi i newid ddigwydd yn y ffordd gywir ar gyfer yr unigolyn hwnnw neu grŵp o unigolion neu mae perygl y byddant yn cau'r busnes o ganlyniad i straen neu fod eu lles yn cael ei effeithio sy'n effeithio ar eu gallu i ryngweithio gyda Deallusrwydd Artiffisial neu hyd yn oed systemau blaenorol a oedd yn gweithio'n briodol. Mae'n bosibl na fydd popeth newydd yn briodol ar gyfer yr holl bobl a'r holl fusnesau ar yr un pryd.

**12.1 Os felly, a ddylai'r gweithgareddau hyn gael eu cyflawni gan y llywodraeth, rheoleiddwyr, neu sefydliad gwahanol?**

Mae'n bosibl na fydd yn briodol bob amser ac felly dylai cefnogaeth a gwybodaeth fod ar gael drwy ystod o lwybrau gan gynnwys rhwng cymheiriaid.

**13. A oes gweithgareddau ychwanegol a fyddai'n helpu unigolion a defnyddwyr i ddefnyddio technolegau deallusrwydd artiffisial yn hyderus?**

Rydym yn teimlo y gallai tirwedd ddryslyd deddfwriaeth, y risg sy'n gysylltiedig â thwyll o ran data personol a hunaniaeth a'r ansicrwydd o ganlyniad gan y cyhoedd yn ymwneud â sut i ymateb os yw gweithgareddau troseddol o'r fath yn digwydd, leihau hyder mewn technolegau Deallusrwydd Artiffisial.

O safbwynt Diogelwch Cymunedol fe fyddem yn awyddus i weld ffocws cynyddol ar leihau a chyfyngu ar y capasiti i Ddeallusrwydd Artiffisial gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch anghyfreithlon a throseddol. I weld addysg a gwybodaeth nid yn unig i ddiogelu ac amddiffyn rhag arferion defnyddiwr anniogel ond i roi'r grym i ddefnyddwyr fel eu bod yn hyderus i ddefnyddio a rhoi cynnig ar dechnolegau newydd mewn dull ac amgylchedd diogel. Enghraifft yw sefydliad trydydd sector sy'n gweithio yng Nghymru sy'n hyrwyddo technoleg gynorthwyol i'w ddefnyddio gan y rhai hynny gydag anableddau dysgu. Maent nid yn unig yn sicrhau fod ganddynt yr offer cywir ond maent yn sicrhau fod yr holl nodweddion diogelwch ymlaen ac maent yn cynnal sesiynau hyfforddi gyda'r unigolion ar fod yn ddiogel ar-lein, y pethau y gellir ac na ellir eu gwneud gan gynnwys os ydych yn gwneud hyn fe fyddwch yn torri'r gyfraith ac fe allech chi fynd i'r carchar. Fe allai'r ymagwedd hon gael ei defnyddio ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial wrth iddo ddatblygu.

**13.1 Os felly, a ddylai'r gweithgareddau hyn gael eu cyflawni gan y llywodraeth, rheoleiddwyr, neu sefydliad gwahanol?**

Fe all fod yn briodol i ddefnyddio cymysgedd ond fe allai hefyd fod yn gyfle i gefnogi a rhoi adnoddau i elusennau dibynadwy lleol a grwpiau cymunedol a allai fod yn arbenigol fel yn yr enghraifft a ddarparwyd i gwestiwn 13.

**14. Sut y gallwn osgoi sefyllfa lle mae canllawiau ar ddeallusrwydd artiffisial a gyhoeddir gan wahanol reoleiddwyr yn gorgyffwrdd, yn dyblygu, neu'n gwrthddweud ei gilydd?**

Fe allai fod yna gyfle i'r rheoleiddwyr i gydweithio a chytuno ar eiriad cyffredin a sut i weithredu, ond hefyd lle bydd ganddynt amrywiadau. Fel mae'r Fframwaith yn ei awgrymu mae'n bosibl y bydd yna rôl ar gyfer llywodraethu canolog a pherchnogaeth, ond mae'n hanfodol fod holl leisiau'r budd-ddeiliaid yn cael eu clywed gan gynnwys gweinyddiaethau datganoledig a defnyddwyr sy'n gwsmeriaid.

**15. A ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol o fonitro a gwerthuso?**

O bosibl, ond mae'n teimlo'n ysgafn o ran manylion ac o ran sut y bydd unrhyw weithgarwch anghyfreithlon yn cael ei nodi a'i fonitro. Rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig fod yna rôl ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig a phartneriaid i fod yn rhan o drafodaethau yn ymwneud â chanfod a lliniaru risg.

**16. Beth yw'r ffordd orau o fesur effaith ein fframwaith?**

Nid ydym yn sicr gan y gallai fod yn briodol i ddefnyddio dulliau gwahanol gyda'r budd-ddeiliaid gwahanol a bod modd i fethiannau'r fframwaith hefyd gael eu mesur. Er enghraifft, os oes yna weithgarwch troseddol cynyddol o ganlyniad i fethiannau

mewn gweithredu'r fframwaith, fe ddylai hyn gael ei fesur a gall gynnwys sefydliadau cyfiawnder troseddol nad ydynt fel arall yn ymwneud ag amgylchedd y fframwaith.

**17. A ydych chi'n cytuno bod ein dull gweithredu yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi arloesedd ym maes deallusrwydd artiffisial; ymdrin â risgiau hysbys, wedi'u blaenoriaethu; a diogelu'r fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artiffisial rhag datblygiadau yn y dyfodol?**

O bosibl, cyn belled â bod yr holl fudd-ddeiliaid wir ymgysylltu a bod modd addasu'r Fframwaith gyda chanlyniadau hysbys am ddiffyg cydymffurfedd. Tra bod ymagwedd ailadroddol yn cael ei chymryd mae angen i'r Fframwaith gael ei ysgrifennu mewn dull i adlewyrchu hyn er mwyn sicrhau fod ganddo'r gwytnwch i'w ddiogelu yn erbyn newidiadau anhysbys yn y diwydiant a sicrhau ei fod yn addas i'r diben mewn amgylchedd technolegol sy'n datblygu.

**18. A ydych chi'n cytuno mai rheoleiddwyr sydd yn y sefyllfa orau i gymhwyso'r egwyddorion ac mai'r llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i oruchwylio a chyflawni swyddogaethau canolog?**

Ydym mewn rhai achosion, ond fe all hefyd fod yn briodol i reoleiddwyr ddarparu ychydig o drosolwg ymarferol. Mae angen nodi sut y ceir adnoddau ar gyfer hyn, o ran adnoddau ariannol, technolegol ac eraill, gan gynnwys sut y bydd hyn yn cael ei reoli ar draws y tirweddau datganoledig a'r rhai a gaiff eu cadw. Mae angen i'r swyddogaethau canolog fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach.

**L1. Pa heriau a allai godi pan fydd rheoleiddwyr yn cymhwyso'r egwyddorion mewn gwahanol gymwysiadau a systemau deallusrwydd artiffisial? Sut y gallem ymateb i'r heriau hyn drwy ein fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artiffisial arfaethedig?**

Mae gan reoleiddwyr gwahanol ddulliau gwahanol o rannu gwybodaeth. Gallai'r Fframwaith uno proses negeseuon er mwyn i bawb ei mabwysiadu drwy leihau jargon a sicrhau fod yna iaith a therminoleg a rennir o ran Deallusrwydd Artiffisial.

Fe all rheoleiddwyr gwahanol fod â gofynion uwch neu is ar gyfer eu haelodau o ganlyniad i natur y gwaith a wneir. Fel crybwyllwyd yn gynharach mae iechyd a gofal cymdeithasol yn debygol o fod yn wahanol i wneuthurwr.

Fe allai fod yn gyfle i weithredu cynlluniau achredu gyda a thrwy'r rheoleiddwyr i sicrhau cysondeb a darparu sicrwydd a thryloywder o ran safonau Deallusrwydd Artiffisial i gwsmeriaid a budd-ddeiliaid eraill.

**L2.i. A ydych chi'n cytuno, drwy roi ein hegwyddorion ar waith drwy fframweithiau cyfreithiol sy'n bodoli eisoes, y byddwn yn neilltuo cyfrifoldeb am ddeallusrwydd artiffisial drwy gydol cylch oes mewn ffordd deg ac effeithiol?**

Nac ydym, fel y crybwyllwyd yn flaenorol mae yna bryderon y bydd yna fylchau. Mae yna enghreifftiau diweddar o ymgynghoriadau yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref i lenwi bylchau sydd nawr yn achosi problemau gan na ddeddfwyd ar eu

cyfer yn unigol ac y camfanteisir arnynt gan grwpiau trosedd cyfundrefnol ac unigolion. Felly, fel nodwyd yn flaenorol, tra bod y Fframwaith yn wirfoddol ac nid mewn deddfwriaeth fe fydd yna fylchau y bydd y rhai hynny sy'n dymuno camfanteisio arnynt yn gwneud hynny.

**L.2.ii. Sut y gellid ei wella, os o gwbl?**

Gweler yr atebion blaenorol yn ymwneud â'r angen am ddeddfwriaeth i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau cydymffurfedd pryd bynnag fo'n bosibl ac felly gellir cymryd camau lle mae achosion o dorri'r egwyddorion ar gyfer gweithgareddau troseddol neu rai eraill sy'n arwain at gamfanteisio neu gam-drin sy'n niweidio unigolion, teuluoedd neu gymunedau.

**L3. Os ydych yn gweithio i fusnes sy'n datblygu, yn defnyddio, neu'n gwerthu deallusrwydd artiffisial, sut rydych yn rheoli risg deallusrwydd artiffisial ar hyn o bryd, gan gynnwys drwy'r gadwyn gyflenwi ehangach? Sut y gallai'r llywodraeth gefnogi ffordd effeithiol o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial?**

Amherthnasol

**F1. Pa heriau penodol y bydd modelau sylfaen megis modelau iaith mawr neu fodelau ffynhonnell agored yn eu hachosi i reoleiddwyr sy'n ceisio pennu cyfrifoldeb cyfreithiol am ganlyniadau deallusrwydd artiffisial?**

Mae yna nifer o broblemau posibl, fel myfyrwyr yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer traethodau. Ansawdd y data a'r wybodaeth a ddefnyddir a sut y caiff diogelu data a chyfrinachedd ei reoli lle caiff modelau ffynhonnell agored eu defnyddio.

Fe allai fod yna fanteision o fodelau sylfaen er enghraifft yn ymchwiliadau'r heddlu neu adolygiadau achos lle mae'n rhaid prosesu symiau mawr o wybodaeth i adnabod tystiolaeth. Fodd bynnag, gallai galluogi tystiolaeth sydd wedi ei ddatblygu gan Ddeallusrwydd Artiffisial i systemau'r llysoedd ofyn am ddeddfwriaeth ynddo'i hun.  Rydym yn credu y byddai'n rhaid i'r cyfrifoldeb orwedd gyda'r sefydliad sy'n ei brynu, a allai arwain at effeithiau negyddol i ddioddefwyr a chyllid sefydliadau pe nai bai Deallusrwydd Artiffisial yn gweithio fel y bwriedir iddo wneud.

**F2. A ydych chi'n cytuno bod mesur lefelau cyfrifiannu yn cynnig adnodd posibl y gellid ei ystyried fel rhan o drefniadau llywodraethu modelau sylfaen?**

Nid oes gennym unrhyw farn ar y mater hwn ar hyn o bryd.

**F3. A oes unrhyw ddulliau eraill o lywodraethu modelau sylfaen a fyddai'n fwy effeithiol?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddulliau eraill.

**S1. Pa un o'r modelau pwll tywod a ddisgrifir yn adran 3.3.4 fyddai'n fwyaf tebygol o gefnogi arloesedd?**

Nid ydym yn sicr a yw'n cefnogi arloesedd ac mae'n gadael risg os mai'r unig beth a wneir yw annog cydymffurfedd yna bydd y rhai hynny a fydd bob amser yn cydymffurfio a'r rhai hynny sydd angen cymhelliant ychwanegol fel gofyniad

cyfreithiol cyn y byddant yn cydymffurfio, yn arbennig os oes angen ffynonellau ychwanegol ar y cam gweithredu.

**S2. Beth y gallai'r llywodraeth ei wneud i sicrhau manteision mwyaf posibl pyllau tywod i arloeswyr deallusrwydd artiffisial?**

Nid oes gennym unrhyw farn ar y mater hwn ar hyn o bryd.

**S3. Beth y gallai'r llywodraeth ei wneud i hwyluso cyfranogiad mewn pwll tywod rheoleiddio deallusrwydd artiffisial?**

Nid oes gennym unrhyw farn ar y mater hwn ar hyn o bryd.

**S4. Pa sectorau diwydiannol neu ddosbarthiadau o gynnyrch a fyddai'n cael y budd mwyaf o bwll tywod deallusrwydd artiffisial?**

Nid oes gennym ni unrhyw farn ar y mater hwn ar hyn o bryd gan fod yna fanteision ac anfanteision ar gyfer y sectorau diwydiant gwahanol a dosbarthiadau o gynnyrch. Yr elfen bwysig yw rheoli risg.

**19. Fel rheoleiddiwr, pa gymorth fyddai ei angen arnoch i gymhwyso'r egwyddorion mewn ffordd gymesur sydd o blaid arloesi?**
Amherthnasol

**20. A ydych chi'n cytuno mai tîm cyfunol o arbenigwyr ar ddeallusrwydd artiffisial fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o lenwi bylchau mewn galluoedd a helpu rheoleiddwyr i gymhwyso'r egwyddorion?**
Fe all tîm cyfun o arbenigwyr Deallusrwydd Artiffisial fod o fudd yn y tymor byr, ond gan fod y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial yn ymestyn ar draws mwy o sectorau mae'n annhebygol o fod yn gynaliadwy felly mae angen cynllunio a gweithredu sut y bydd y bylchau galluedd a chapasiti yn cael eu llenwi.

**21. Pa adnoddau anrheoleiddiol ar gyfer deallusrwydd artiffisial dibynadwy fyddai fwyaf defnyddiol i helpu sefydliadau i ymgorffori egwyddorion rheoleiddio deallusrwydd artiffisial mewn prosesau busnes sy'n bodoli eisoes?**
Nid oes gennym ni unrhyw farn gan nad ydym wedi ymgysylltu gydag unrhyw rai o'r adnoddau Deallusrwydd Artiffisial i wybod beth yw eu cryfderau a'u gwendidau.

**22. A oes gennych unrhyw syniadau eraill ynglŷn â'n dull gweithredu cyffredinol? Nodwch unrhyw gyfleoedd coll, diffygion, a bylchau yn ein fframwaith.**
Tra rydym yn gwerthfawrogi fod y Fframwaith hwn yn ceisio ymdrin â thirwedd fawr a chymhleth mae yna ddiffyg ffocws ar gosbau a chanlyniadau diffyg cydymffurfiaeth. Rydym yn credu y dylai hyn gael ei ailystyried o ganlyniad i bwysigrwydd y pwnc hwn, y risgiau posibl i unigolion, teuluoedd a chymunedau a'r angen am roi canlyniadau go iawn mewn grym i sicrhau ymrwymiad a chydymffurfedd.

**Cwestiynau Asesiad o Effaith**

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**1: A ydych chi'n cytuno bod y rhesymeg dros ymyrryd yn ymdrin yn gynhwysfawr â niweidiau presennol a niweidiau yn y dyfodol ac yn dangos tystiolaeth ohonynt?**

Ydym - Rydym yn cytuno fod ymagweddganolog i dynnu deddfwriaeth ac atebolrwydd datblygiad Deallusrwydd Artiffisial yn angenrheidiol ond gan fod Deallusrwydd Artiffisial yn dechnoleg sy'n datblygu mae'n bosibl y bydd yna niweidiau anhysbys a chanlyniadau annisgwyl a allai amrywio'r ymateb hwn.

**2: A ydych chi'n cytuno bod ymddiriediaeth gynyddol yn ffactor sylweddol sy'n ysgogi'r galw am systemau deallusrwydd artiffisial?**

O bosibl fe allai fod yna amharodrwydd gan ddefnyddwyr a busnes o ganlyniad i'r bygythiad o niwed yn erbyn yr unigolyn a/neu'r sefydliad. Fodd bynnag, fe allai fod yna gyfyngiadau eraill fel y gost ar adeg pan fo nifer o fusnesau yn ei chael yn anodd o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a thra bo technoleg yn parhau i gael ei ddatblygu fe allai fod yn gost ddiangen.

**3: A oes gennych unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r amcangyfrifon a'r tybiaethau canlynol ar gyfer y fframwaith?**

Na

**4: A ydych chi'n cytuno â'r amcangyfrifon sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau canolog?**

Nid ydym yn gallu darparu sylw penodol, fodd bynnag mae'r cwestiwn yn parhau yn ymwneud â'r dadansoddiad cost presennol yn yr amgylchedd yn dilyn Covid ac yn ystod cyfnod o chwyddiant ac argyfwng costau byw a'r goblygiadau posibl o ran adnoddau a sut bydd y rhain yn cael eu hariannu.

**5: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fetrigau amgen i fesur amcanion polisi**

Na.

**6: A ydych chi'n credu y byddai rhai systemau deallusrwydd artiffisial yn cael eu gwahardd o dan Opsiynau 1 a 2, oherwydd craffu rheoleiddiol cynyddol?**

Er nad oes gennym ni unrhyw sylwadau penodol, rydym yn pryderu y gallai fod yna risg y bydd y craffu yn cael ei leihau os yw'r craffu rheoleiddiol cynyddol yn arwain at rai systemau Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu gwahardd. Gallai hyn osod cynsail gwael ac arwain at risg gynyddol o arfer gwael a niwed yn dod drwy ddefnydd gwael o Ddeallusrwydd Artiffisial, ac felly rydym ni'n teimlo fod y craffu rheoleiddiol cynyddol yn briodol.

**7: A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o bob opsiwn polisi yn erbyn yr amcanion?**

Rydym yn cytuno gyda'r wybodaeth rydych wedi ei darparu, fodd bynnag rydym yn credu y dylai fod yna fwy o bwyslais ar ansawdd, cydymffurfedd a diogelwch Deallusrwydd Artiffisial yn erbyn y gost yn hytrach nac i'r gwrthwyneb.

**8: A oes gennych unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n profi neu'n gwrthbrofi ein dadansoddiad yn yr asesiad o'r effaith?**

Na.